

## **Cyngor Cymuned Llanelian (296)**

Cofnodion cyfarfod Ebrill 10, 2018 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Dafydd Griffiths, Helen Hughes, Hefina Williams, Glenys Jones, Ian Evans, Elfyn Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Cyng. Aled Morris Jones, Cyng Richard Griffiths,

**Ymddiheuriadau:** John Griffiths, Thomas Jones, David Gerrard Cyng Richard Jones

**Yn bresennol:** Carli Evans Thau (Clerc)

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

### **2 Datgan Diddordeb**

Ian Evans - Cais cynllunio Y Bedol ac Hafod y Grug  
Helen Hughes, Dafydd Griffiths – Ffioedd Claddu

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Hefina Williams, eilio Helen Hughes.

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

#### **4.1 Arolwg Anghenion Tai**

Roedd hwn yn gyfle i aelodau roi sylw ar yr adroddiad wedi iddynt gael cyfle i'w ddarllen. Teimlai'r aelodau bod yr arolwg wedi ei siapio i gefnogi cais Grwp Cynefin am dai yn y pentref, ond eto roeddent wedi eu siomi am y gorau gan fod yr arolwg yn dangos nad oedd angen am fwy o dai yn y pentref wedi hynnu. Nodwyd y byddai'r angen am dai mawr neu bach wedi bod yn ddefnyddiol yn ogystal ac angenhion yr henoed/pobl hyn. Nodwyd bod y tai yn ardal Llanelian yn mynd yn fwy ac yn fwy gyda pobl yn addasu ac ehangu eu eiddo. Mae gwerth a pris y tai hefyd yn cynyddu o ganlyniad.

Nodwyd nad oedd gan y Cyngor Cymuned reolaeth wedi i ganiatad cynllunio gael ei gymeradwyo. Nid oes gan y Cyngor Cymuned ddylanwad pellach wedi i gais gael ei gymeradwyo ond fe all o bosib ddylanwadu ar gael arian tuag at galluogi Grwp Cynefin i gynnig gwerthu drwy gynllun ecwiti Darllennwyd ebost gan Ned Michael pennaeth adran dai CSYM – nododd mai Grwp Cynefin sydd yn penderfynnu sut bydd y tai yn cael eu gosod / gwerthu, ac mai hwythau hefyd fydd yn penderfynnu ar enw. Cytuno gwahodd Ned Michael i gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned i gyflwyno ei hun ac esbonio sut mae'r broses tai fforddiadwy a chynllun ecwiti yn gweithio o safbwynt CSYM. Cytuno hefyd anfon ebost at Grwp Cynefin yn gofyn am ddiweddariad am eu trafodaethau gyda CSYM.

#### **4.2 Lon yr Ysgol**

Cafwyd wybod ar lafar gan Mr Owen, perchenog y tir nad oedd am ei werthu, a bod gan CSYM opsiynau eraill megis maes parcio staff ar dir yr ysgol (cae) neu prynu a dymchwel yr hen fecws a'i ddatblygu yn faes parcio. Byddai'r opsiwn yma hefyd yn gwella gwelededd a diogelwch y gyffordd. Diolchwyd i Ian Evans am adrodd yn ol.

Nodwyd bod angen gwybod yn union dyfodol yr ysgol cyn buddsoddi a cymeradwyo gwariant pellach. Nododd Glenys Jones bod yr ysgol eisioes wedi gwario ar drin y cae at ddefnydd y disgyblion y flwyddyn diwethaf.

#### **4.3 Giatiau Mynwentydd**

Mae dal disgwyl i Elis Wyn Roberts gysylltu ar ran Henaduriaeth Mon er mwyn cael ddiweddariad am y giat. Nodwyd bod y giat mawr yn beryg a bod angen twtio'r llwybr ym mynwent Bosra. Mae'r coed hefyd angen eu twtio a'u torri nol fel bod posib i bobl ddefnyddio'r llwybr a'r giat fochyn. Cynnigwyd bod y Cyngor yn ysgrifennu at Lywydd yr Henaduriaeth i godi ymwybyddiaeth. Hefina Williams i gadarnhau manylion cyswllt.

Cadarnhawyd bod y cais adeiladau cofrestredig wedi ei gyflwyno ar gyfer giat Eglwys Eilian. Daw copiau o'r adroddiadau gan Gareth Rennie er gwybodaeth. Mae disgwyl ymateb gan CSYM ym mis Mai.

#### **4.4 Materion Prifffyrdd**

Daw ebost gan Steven Jones, peiriannydd ardal gyda diweddariadau fel y ganlyn –

- Tyllau Lon yr Ysgol tuag at Pengorffwysfa i'w llenwi cyn gynted a phosib
- Wedi codi ymwybyddiaeth gyda BT eto ynglŷn a'r clawr angen sylw ger y Bedol
- Gwaith jetio a CCTV wedi ei raglennu ar gyfer gwlliau Stryd y Capel
- Angen cysylltu eto a swyddogion adran traffig a gwastraff am ddiweddariad am arwyddion biniau.

#### **4.5 Yswiriant**

Daw gwybodaeth gan Zurich Municipal y byddai cost yswiriant 2018/19 gan gynnwys eiddo yn £565.29; nid yw'r Cyngor wedi yswirio eiddo hyd yn hyn. Cytuno byddai'r Cyngor yn cael polisi mwy cyflawn ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gofynnwyd i'r clerwr gysylltu a chwmnïau eraill am brisiau i'w cymharu yn y cyfarfod nesaf. Mae'r polisi i'w adnewyddu ddechrau mis Mehefin.

#### **5 Caeau Chwarae**

Cafwyd bris gan Medwyn Owen am y gwaith sydd ei angen am drin a phaentio'r offer chwarae. Cytuno derbyn y pris ac i'w gwaith gael ei gwblhau cyn gynted a phosib. Gofynnwyd i'r clerwr drefnu llyfr newydd ar gyfer cofnodi arolygon wythnosol, ac archebu dwy mainc picnic plastic i'w gosod un ym mhob parc.

#### **6 Llithrfa**

Mae ceisiadau am oriadau yn dechrau dod i fewn. Bydd y postyn yn ei le canol mis Mai.

#### **7 Cynllunio**

##### **7.1 Ceisiadau – roedd un cais i'w ystyried:**

- Polyn trydan ger Hafod y Grug, Cerrig Man. Nodwyd nad oedd angen caniatad ar gyfer y polyn ac mai er gwybodaeth yn unig oedd y dogfennau.

##### **7.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn:**

- Kingston a Dublin (24C254D) – Caniatad
- Glaslyn (24C178E/MIN) – Caniatad

##### **7.3 Ymgynghoriad Cyn Cyflwyno – Y Bedol**

Cafwyd ebost gan Cadnant Planning Ltd mewn ymateb i'r cwestiynnau a godwyd yn y cyfarfod diwethaf. Cafwyd wybod byddai 12 o'r tai i'w gwerthu ar y farchnad agored, ar gael i'w prynu drwy gynllun Help to Buy Wales. Byddai dau o'r unedau yn rai fforddiadwy yn unol a gofynnion polisi. Cafwyd wybod bod y cwmni yn ymgynghori a Cyfoeth Naturiol Cymru a Dwr Cymru ynglŷn a charffosiaeth. Mae CNC wedi cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r bwriad i gysylltu a'r system bresennol. Nid oes ymateb gan DC hyd yma. Mae'r datblygwr yn barod i weithio gyda swyddogion prifffyrdd CSYM er sicrhau bod y fynedfa ar gyfer y datblygiad yn dderbynniol, maent yn aros am ymateb CSYM ar hyno bryd.

Nododd Cyng Richard Griffiths mai dim ond tai gwerth £200k neu fwy sydd yn gymrys am gynllun Help to Buy Wales, a bod hynny felly yn rhoi syniad am y math o dai fydd yn y datblygiad. Mae Dafydd Griffiths wedi cysylltu a Cadnant ynglŷn a'r ddau uned fforddiadwy. Nid oes cynllun pendant ar hyn o bryd, ond y byddai marchnata lleol ac amodau i berson lleol. Nodwyd nad oes cais cynllunio wedi dod ger bron y Cyngor hyd yma ac mai ymgynghoriad yn unig yw hwn. Cytuno gofyn i'r adran gynllunio am fwy o wybodaeth am gytundeb 106 a thai fforddiadwy yn gyffredinol.

Cytuno cysylltu a CNC i dynnu sylw o bryderon y Cyngor am y system garffosiaeth yn y pentref. Pa dystiolaeth sydd gan CNC i ddweud nad ysynt yn gwrthwynebu? Nid yw'r Cyngor wedi bod mewn cysylltiad a hwy hyd yma, dim ond gyda Dwr Cymru. Ydi CNC yn ymwybodol o'r problemau e.e. arogl yn y cae chwarae? Cytuno gofyn i Cadnant Planning Ltd am gopi o sylwadau Dwr Cymru a CNC os yn bosib.

#### **8 Materion Ariannol**

##### **8.1 Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –  
£272.23 Cyflog Clerc

£231.05 Costau Ionawr – Mawrth  
£1108.00 Hafod Planning Consultants (Giat y Fynwent)

## **8.2 Adroddiad Chwarter (diwedd blwyddyn)**

Dosbarthwyd gopiau o'r adroddiad i bawb oedd yn bresennol, nodwyd bod yr adroddiad chwarterol o hynnu i beth yn adroddiad blynyddol hefyd. Nodwyd nad oedd y grant tuag at dorri llwybrau wedi ei dalu gan CSYM hyd yma ond bod anfonebau wedi eu hanfon atynt mewn da bryd ar gyfer y flwyddyn ariannol diwethaf.

Doosbarthwyd hefyd dogfen yn dangos cysoni'r banc ar gyfer y flwyddyn diwethaf. Nodwyd nad oedd arian mawr Cronfa Ty Moel wedi ei gynnwys a'i bod wedi ei gadw ar wahan.

## **8.3 Ceisiadau am Arian**

Ni dderbyniwyd ceisiadau am arian.

## **8.4 Ffioedd Claddu**

Cadeirwyd yr eitem gan Hefina Williams. Mabwysiadwyd y ffioedd newydd ar yr un ffurf ag Amlwch a Llanbadrig. Cytuno byddai'r ffioedd yn codi 5% yn flynyddol fel y cynghorau eraill.

## **8.5 Gofynnion Archwiliad**

Mae rhestr hirfaith wedi ei derbyn gan yr archwiliwr mewnol erbyn hyn yn gofyn am weld nifer o ddogfennau a chofnodion y Cyngor yn ogystal gwybodaeth am wariant ac incwm. Nid oes gwybodaeth gan yr archwiliwr allannol hyd yma. Dosbarthwyd adroddiad wedi ei baratoi gan y clerc yn nodi nifer o ofynnion yr archwiliad gan gynnwys asesu risg ac fe drafodwyd ei gynnwys yn fanwl.

## **9 Cronfa Ty Moel Isaf**

Nid oedd ddiweddariad am dderbyn unrhyw arian ychwanegol yn dilyn gwerthu'r fflat.

Cafwyd wybod gan Hefina Williams bod Cymdeithas y Leinws yn bwriadu cyflwyno cais am gymorth ariannol. Nodwyd bod WI Llanelian wedi gofyn am arian yn barod, ac fe ofynnwyd i'r clerc gysylltu anhwy am fwy o wybodaeth.

Nododd Carol Whitaker bod y Clwb Ieuenctid yn bwriadu cynnal prosiect i gofio canmlwyddiant y Rhyfel Mawr ac fe ofynnwyd am gyfraniad o £250 tuag at y gost o brynnu milwr tawel fel rhan o brosiect cenedlaethol. Cytuno cyfrannu tuag at y milwr tawel, ac fe ofynnwyd i Gordon Hayes a Carol Whitaker gadarnhau pa gostau eraill oedd ynghlwm a'r prosiect. Cadarnhawyd bod hawl i'r clwb ieuenctid osod cerflun o'r fath ar y gofeb ym mis Tachwedd.

Wrth drafod digwyddiadau Cofio, trafodwyd ebost gan Cyng Aled Jones yn nodi manylion digwyddiad sydd i'w gynnal am 7 o'r gloch 11/11/18 ar Fynydd Parys. Bydd golau i'w gynnal ar draws Prydain ar yr un amser yn symbol o ddiwedd y Rhyfel. Bydd cais swyddogol am arian i ddilyn yn y cyfarfod nesaf ond gobeithir bydd cynghorau cymuned ardal Twrcelyn i gyd yn gallu bod yn rhan o'r prosiect a chyfrannu tuag ato. Roedd yr aelodau yn gefnogol mewn egwyddor.

## **10 Iechyd a Diogelwch** - dim materion ychwanegol i'w ystyried.

## **11 Wylfa Newydd**

Cafwyd grynoded gan Dafydd Griffiths o gyfarfod diwethaf Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon gyda Annwen Morgan ynglŷn ag effath Wylfa Newydd ar yr iaith Gymraeg a mesuriadau lluniaru posib. Mae is-bwyllgor wedi ei benodi er mwyn delio a'r mater ar ran y Barteriaeth.

Nodwyd nad oedd y cais DCO wedi'i gyflwyno fel y disgwyl 29/3/2018 a bod hynnu am resymau yn ymwneud a bywyd gwyllt. Nododd Dafydd Griffiths bod rhai rhanddeilwyr wedi cael copi drafft o'r cais yn barod tra bod eraill ddim. Mae wedi gofyn yn ffurfiol i Horizon am ddogfennau penodol ond yn dal i ddisgwyl eu derbyn. Cytuno ei bod yn hen bryd i Horizon wrando ar, a chefnogi'r gymuned leol.

Bydd y Bartneriaeth yn cwrdd eto nos Fawrth 17/4/2018 gyda'r arbennigwyr WOOD ac eto 1/5/2018 gyda swyddogion Horizon i drafod y Datganiad Tir Cyffredin.

**12** **Gohebiaeth**

Cafwyd ebost gan Cyng Richard Jones yn atgoffa aelodau am y cyngerdd elusennol sydd iw gynnal yn y Neuadd Goffa 20/4/2018.

**13** **Unrhyw Fater Arall**

**13.1** Neuadd Bentref – fe ofynnodd Elfyn Hughes i'r clerwr ysgrifennu at Mr Patterson, gofalwr y Neuadd, yn cadarnhau'r newidiadau yn nhrefniadau talu am y flwyddyn ariannol yma. Cytuno byddai'r Cyngor yn talu am ddefnydd y Neuadd yn chwarterol.

**13.2** Coed tan ar y ffordd – nodwyd bod pentwr coed tu allan i dy ger Rhos Newydd, ar yr hen lon. Nid yn unig bod y pentwr yn lanast gweledol ond mae darnau o goed yn cael eu chwythu i'r lon fawr pan ceir gwyntoedd cryfion. Cytuno cysylltu a CSYM i godi ymwybyddiaeth o bryderon yr aelodau.

**14** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Mai 8 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.45.

**Arwyddwyd**  
**Dafydd Griffiths**  
**Cadeirydd**

CET04/2018